



Ein cyf/Our ref: VH/PO/288/2024

Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd
Llywydd@senedd.cymru

Annwyl Elin,

Wedi i mi adolygu fy sylwadau yn y Cyfarfod Llawn neithiwr mewn ymateb i'r cwestiwn gan Cefin Campbell, hoffwn rhoi ar gofnod rhai diwygiadau i'r hyn a ddywedais am botensial cefnogaeth i'r sector addysg uwch yng Nghymru.

Hoffwn ailadrodd fy ymrwymiad llwyr i gefnogi sector addysg uwch gynaliadwy gyda sefydliadau cryf yn gallu cyflawni ein huchelgais ar gyfer myfyrwyr ac ymchwil, a sbarduno twf economaidd yng Nghymru.

Yn ystod fy ymateb i'r cwestiwn, cyfeiriais at 'gronfa drawsnewid' benodol. Hoffwn egluro mai megis dechrau yn unig y mae'r gwaith yn y maes polisi hwn ac rydym yn yn dal i weithio trwy'r hyn y gallai mecanwaith cymorth posibl, os o gwbl, edrych, mewn partneriaeth gyda Medr a sefydliadau eraill.

Er fy mod yn ymwybodol o alwadau ehangach am Gronfa Frys i gefnogi addysg uwch mater i Lywodraeth y DU yn unig yw'r sector yn Lloegr.

Hoffwn hefyd ailadrodd fy natganiad yn y siambr nad ydym yn credu bod unrhyw sefydliad Cymreig sydd mewn perygl o fethiant.

Roeddwn i eisiau ysgrifennu atoch chi fel Llywydd cyn gynted ag y bo modd fel bod yna eglurder llawn ar y mater pwysig hwn i Aelodau a'r sector ehangach, a byddaf yn dychwelyd i ddiweddarau'r Senedd ar hyn unwaith y bydd y gwaith datblygu pellach wedi'i gwblhau.

Yn gywir,

Vikki Howells AS/MS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.